



# Gwasanaethau Tinitws i Oedolion

## Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth 2023

Dosbarthwyd 75 o holiaduron i ddefnyddwyr y Gwasanaeth Awdioleg i Oedolion yng Nghaerdydd a'r Fro o fis Rhagfyr 2023. Derbyniassom 60 o ymatebion a dangosir y canlyniadau isod.

### HYGYRCHEDD

Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan o ran cyfathrebu â'r adran, amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau ac yn ystod apwyntiadau, a'r cymorth a roddir i gleifion ag unrhyw anghenion cyfathrebu.

*'Amser a gymerwyd i gael apwyntiad.'*  
*'Roedd y rhestr aros yn hirach na'r disgwyl.'*

#### Ein Hymateb.

- Yn ddiweddar rydym wedi ychwanegu aelodau newydd o staff at y tîm tinitws i helpu i leddfu amseroedd rhestrau aros.

### GWYBODAETH

Roedd lefel uchel o foddhad gyda'r wybodaeth ysgrifenedig ac ar lafar a dderbyniwyd.

*'Rhoddodd yr awdiolegydd sylw i mi a rhannodd wybodaeth yn glir.'*  
*'Roedd yn broffesiynol ac yn effeithlon. Roedd yr awdiolegydd yn gyfeillgar, yn tawelu fy meddwl ac yn gymwynasgar ac esboniodd bopeth yn dda.'*  
*'Roedd yr awdiolegydd yn hyfryd, rhoddodd ddolenni defnyddiol i mi (gwefan)'*

#### Ein Hymateb.

- Rydym wedi diweddarau gwybodaeth ysgrifenedig ac ar-lein i gleifion yn ddiweddar. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau cymorth, apiau sain a dogfennau sydd ar gael ar ein gwefan. Bellach mae ein llythyrau yn cynnwys map gyda chyfarwyddiadau i'r gwahanol glinigau awdioleg, y daflen 'Popeth am tinitws' a'r daflen 'Cymorth gyda phenderfyniadau tinitws.' Ar hyn o bryd rydym yn creu ein llyfryn gwybodaeth tinitws adrannol ein hunain.

Roedd yn braf iawn gwybod bod canran mor uchel o ymatebwyr yn fodlon iawn ar y Gwasanaeth Tinitws i Oedolion a dderbyniwyd yn gyffredinol. Mae'r holl sylwadau negyddol yn cael eu cymryd o ddifrif a byddant yn ffurfio cynllun gweithredu'r flwyddyn nesaf ar gyfer gwella gwasanaethau.

### AMGYLCHEDD

Cafwyd lefel uchel o foddhad o ran y croeso a dderbyniwyd yn y dderbynfa ac edrychiad a chyffordduswyd yr ystafelloedd. Dywedodd 10% o gleifion eu bod braidd yn anfodlon.

*'Ar amser'*  
*'Roedd yn brofiad da'*  
*'Roedd pawb yn gyfeillgar ac yn gwrtais.'*  
*'Mae'r ystafell aros a'r ystafell apwyntiadau yn rhy boeth'*  
*'Mae'r ystafell aros ac ystafell y clinig yn rhy boeth'*  
*'Mae'n boeth yn yr ystafelloedd'*

#### Ein Hymateb.

- Ar hyn o bryd rydym yn y broses o gael system aerdymheru wedi'i gosod yn y clinig, mae'r prosiect hwn yn mynd rhagddo.

### GOFAL A THRINIAETH STAFF

Nodwyd lefel uchel iawn o foddhad gyda phroffesiynoldeb staff, gyda 97% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn fodlon ar eu hapwyntiad. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan o ran y cyfleoedd i drafod problemau neu anawsterau, cymorth gyda thinitws a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y tîm.

Roedd yn braf iawn cael rhai sylwadau cadarnhaol o ran y gofal a'r driniaeth gyffredinol a dderbyniwyd:

*'Cwrtais, proffesiynol ac effeithlon'*  
*'Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael fy neall, eu bod yn gwrando arnaf, ac yn dangos empathi, ac nid oeddwn yn teimlo fy mod i ar fy mhen fy hun.'*  
*'Roedd pawb yn gyfeillgar ac yn gwrtais. Cefais ddigon o wybodaeth a chyfle i ofyn cwestiynau.'*  
*'Cyfeillgar, trylwyr a phroffesiynol.'*  
*Yn falch iawn. Aeth popeth yn dda'*  
*Yn llawn dealltwriaeth.'*



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board